

SBAENEG

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr: Dylid rhoi cynnig ar bob cwestiwn

Ni chaniateir geiriaduron, nodiadau adolygu, nac unrhyw fath arall o gymorth allanol. Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr atebion a ddarperir. Os gwnewch gamgymeriad drwy ateb ar y papur cwestiynau, rhowch y papur i mewn yn y llyfr atebion ar y diwedd.

A. Traducción al español (50%):

Traduce el siguiente texto al español.

Cwrddais â Cilea chwe wythnos ar ôl i mi gyrraedd. Roeddwn i'n darlithio ar ysgrifennu traethodau pan ddaeth hi mewn yn hwyr ac eistedd yng nghefn y brif neuadd, lle mawr fel ogof ag acwsteg a oedd yn troi iaith lafar yn law mân. Dyma oedd y dull Rwmanaidd - y raddfa wedi'i dylunio i fod yn fwy na phob mynegiant dynol. Cadwodd ei sbectol haul ymlaen, gan lolian ar draws dwy sedd yn y rhes gefn ac edrych i fyny ar y gromen o wydr brwnt.

Roedd ei chorff yn signal ynddo'i hun. Yn sydyn, fe wnaeth dynion a menywod - a fu â'u cefnau ati - droi ati fel cŵn tuag at chwiban anghlywadwy. Nid ei bod hi'n hardd yn unig - roedd yno ddigon o harddwch ar hyd y lle, ac nid oedd gan Cilea damaid o gonsenws-harddwch y model sioe ddiplad neu'r cylchgrawn i ddynion. Roedd ei hwyneb yn dywyll, ei llygaid yn stormus ac yn bellennig ar yr un pryd. Roedd lliw haul ar ei chroen, minlliw coch llachar ar ei cheg a'i gwallt yn ddu a disglair fel un o limwsîns y Politbwro. *Trawiadol* oedd y gair, er y byddem yn ceisio osgoi ei ddefnyddio'n ormodol mewn gwladwriaeth heddlu: ei chymysgedd o gnawdolrwydd ac o fod y tu hwnt i'r cyffwrdd, ynghyd â'r ffordd oedd ganddi o wisgo'r dillad gorau a diweddaraf o'r gorllewin, nid yn y modd roedd y bobl yn eu gwisgo o'i chwmpas - gydag amaturiaeth ymffrostgar, â'r labeli wedi'u troi tuag allan - ond yn ddidaro, o stoc ddi-ben-draw. Roedd golwg arni fel rhywun o oes arall yn ogystal ag o wlad arall: yr Eidal neu Ffrainc yn y 1960au fel petai wedi'i gweld drwy brism pŵer prynu Unol Daleithiau America yn niwedd yr 80au. Sylwodd pawb arni: ac roedd pawb i'w gweld fel petaent yn ei hadnabod hi hefyd. Collais drywydd fy ngeiriau pan ddaeth hi mewn, gan faglu drwy weddill y ddarlith, a chiledrych ar draws y rhesi o seddi gwag i le'r eisteddai.

[Cyfieithiad o ddarn o *The Last Hundred Days*, Patrick McGuinness]

[336 gair]

Vocabulario

el pitido; el silbido – chwiban

llamativo; impresionate – trawiadol, *arresting*

aciclarse; pavonearse; ser vanidoso – ymffrostio, *to preen*

[Parhad Trosodd]

B. Expresión escrita (50%):

Escribe una redacción en español de no menos de 300 palabras. Elige solo UNO de los siguientes temas.

1. Compara la cultura de un país hispanohablante con que estás familiarizado y la cultura de tu país. Considera las semejanzas y las diferencias entre las dos culturas.

O BIEN

2. Discute los temas de una película, una novela, una obra de teatro o una obra de arte hispana que conoces o que has estudiado.

O BIEN

3. Analiza un tema de la actualidad que te interesa de una región de España o de un país latinoamericano.